# CYNGOR GWYNEDD

## GWASANAETH GWARCHOD Y CYHOEDD
## ADRAN RHEOLEIDDIO

## PECYN GWYBODAETH TRWYDDED GWEITHREDWYR CERBYD HURIO PREIFAT

**MAE FERSIWN SAESNEG O'R PECYN YMGEISIO HWN AR GAEL**

**CAIS AM DRWYDDED GWEITHREDWR CERBYD HURIO PREIFAT**

Amgaeir ffurflenni cais a nodiadau canllaw i'ch cynorthwyo i wneud cais i'r Cyngor. Os ydych angen unrhyw wybodaeth neu gyngor pellach ynghylch gwneud cais am Drwydded Gweithredwr Cerbyd Hurio Preifat, cysylltwch â'r Tîm Trwyddedu:

| | | |
|---|---|---|
| Uned Trwyddedu (Arfon)<br>Cyngor Gwynedd,<br>Stryd y Jêl,<br>Caernarfon,<br>Gwynedd, LL55 1SH<br>Rhif ffôn: 01286 679925 | Uned Trwyddedu (Dwyfor)<br>Cyngor Gwynedd,<br>Ffordd y Cob,<br>Pwllheli,<br>Gwynedd, LL53 5AA<br>01758 704000 | Uned Trwyddedu (Meirionnydd)<br>Cyngor Gwynedd,<br>Penarlâg,<br>Dolgellau,<br>Gwynedd, LL40 2YB.<br>01341 424326 |

Y Tîm Trwyddedu yw:

| | |
|---|---|
| Amlyn ab Iorwerth | Rheolwr Trwyddedu |
| Ceridwen Pritchard | Swyddog Trwyddedu (Arfon) |
| Gwenda Ann Roberts | Swyddog Trwyddedu (Dwyfor) |
| Heilyn Williams | Swyddog Trwyddedu (Meirionnydd) |
| Robert Taylor | Gorfodaeth Trwyddedu (Arfon) |
| Alwyn Thomas | Gorfodaeth Trwyddedu (Meirionnydd/Dwyfor) |

Mae'r wybodaeth a'r canllawiau a ganlyn wedi'u cynnwys yn y pecyn gwybodaeth hwn:

1. Ffurflen Gais Gweithredwr Cerbyd Hurio Preifat
2. Amodau Safonol y Drwydded

Dylech sicrhau eich bod yn ymgyfarwyddo eich hun â phob amod sy'n gysylltiedig â'r cais hwn gan y gallai unrhyw achos o dorri amod arwain at wahardd / diddymu eich trwydded.

## TRWYDDED GWEITHREDWYR CERBYD HURIO PREIFAT

## CANLLAWIAU AR WEITHDREFNAU TRWYDDEDU

Mae gofyn i chi gael yr hyn a ganlyn i ategu'ch cais:

1. Ffurflen gais wedi'i llenwi
2. Ffurflen CRB (SAFONOL) – os ddim yn yrrwr Hacni/Hurio Preifat
3. Ffi

Ni ellir prosesu unrhyw gais hyd nes y bydd y ffi briodol wedi'i derbyn.

**Nid yw caniatâd cynllunio yn ragofyniad ar gyfer eich trwydded, ond dylsech sicrhau eich bod yn derbyn y caniatâd priodol gan yr awdurdod cynllunio lleol sy'n eich caniatáu i gynnal eich busnes o'r eiddo dan sylw.**

Yn ogystal, dylid nodi os nad ydych yn berchen eich eiddo eich hun, yna mae angen i chi wneud cais am ganiatâd landlord. Nid yw hyn yn ragofyniad ar gyfer eich trwydded ond mae'n amod tenantiaeth bod rhaid i unrhyw un sy'n dymuno gweithredu busnes dderbyn y caniatâd perthnasol.

Mae'r holl faterion sy'n ymwneud â'ch cais yn gyfrinachol ac ni thrafodir y materion hyn ag unrhyw un ac eithrio'r rhai sy'n ymwneud yn uniongyrchol â phrosesu eich cais.

# TRWYDDED GWEITHREDWYR CERBYD HURIO PREIFAT - AMODAU TRWYDDED SAFONOL

**RHAN A - STATWS CYFREITHIOL**

1. Lluniwyd yr amodau hyn yn unol ag Adran 55 Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976 ac fe'u mabwysiadwyd gan Gyngor Gwynedd, a nodir unrhyw addasiadau dilynol pan fo'n briodol wrth gyfeirio at y dyddiad dan sylw.
2. Gall torri un neu fwy o'r Amodau hyn arwain at wahardd, diddymu neu wrthod adnewyddu'r drwydded, yn unol ag Adran 62 y Ddeddf hon.

**RHAN B - DEHONGLIAD**

1. Dan yr amgylchiadau hyn, bydd y geiriau a ganlyn yn golygu'r hyn a nodir isod:-

| | |
|---|---|
| "y Ddeddf" | - Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976. |
| "y Cyngor" | - Cyngor Gwynedd. |
| "y drwydded" | - trwydded gweithredwr cerbyd hurio preifat a ganiatawyd yn unol ag Adran 55 y Ddeddf. |
| "y gweithredwr" | - deilydd y drwydded. |
| "gweithredu" | - gweithredu cerbyd yng nghwrs y busnes sy'n unol â'r drwydded. |
| "cerbyd hurio preifat" | - cerbyd sydd wedi'i drwyddedu gan y Cyngor ar hyn o bryd dan Adran 48 y Ddeddf. |
| "rhif trwydded y cerbyd" | - y rhif a ddyrannwyd gan y Cyngor i drwydded a ganiatawyd i gerbyd hurio preifat dan Adran 48 y Ddeddf neu gerbyd hacni a drwyddedwyd dan Adran 37 Deddf Cymalau Heddlu'r Dref 1847. |
| "rhif trwydded yrru'r gyrrwr" | - y rhif a ddyrannwyd gan y Cyngor i drwydded a ganiatawyd i'r gyrrwr dan Adran 51 y Ddeddf neu yn achos cerbyd hacni, dan Adran 46 Deddf Cymalau Heddlu'r Dref 1847. |
| "y dosbarth" | - sir Gwynedd |

2. Dehonglir fod cyfeiriad at genedl enw gwrywaidd yn cynnwys cyfeiriad at genedl enw benywaidd hefyd ble bo hynny'n briodol.

3. Bydd yr holl eiriau a brawddegau a ddefnyddir yn yr Amodau hyn yn golygu'r ystyr a roddir iddynt (os o gwbl) yn y Ddeddf.

**RHAN C - YR AMODAU**

**1**. Ni ellir trosglwyddo'r drwydded i unrhyw berson arall.

**2.** Ni fydd y gweithredwr yn gweithredu unrhyw gerbyd fel cerbyd hurio preifat yn y dosbarth oni bai fod y cerbyd a'r gyrrwr wedi'u trwyddedu gan y Cyngor.

**3.** Ni fydd y gweithredwr yn gweithredu unrhyw gerbyd fel cerbyd hurio preifat os yw'r Cyngor yn ei hysbysu nad yw'r cerbyd yn addas i'w ddefnyddio fel cerbyd hurio preifat.

**4.** Er dibenion Adran 56(3) y Ddeddf, bydd gofyn i'r gweithredwr gadw cofnod mewn llyfr addas, gyda'r tudalennau wedi'u rhifo'n llawn (neu dylid argraffu copi o'r cofnod a'i gadw ar ffeil os y defnyddir cyfrifiadur i gofnodi), ac mae'n rhaid dyddio'r tudalennau'n glir. Cyn dechrau pob Taith Hurio Preifat a Archebwyd, rhaid i'r gweithredwr nodi'r manylion a ganlyn:

(a) yr amser a'r dyddiad pan archebwyd y gwasanaeth.
(b) enw'r huriwr, ynghyd â'i gyfeiriad (os yw'n ymarferol).
(c) y dull archebu - ffôn, galwad bersonol neu
arall.
(d) yr amser a'r dyddiad pan aed i nôl y cwsmer.
(e) pwynt casglu'r cwsmer.
(f) pen taith y cwsmer.
(g) rhif trwydded y cerbyd a rhif trwydded y gyrrwr.
(h) yr amser pan ddyrannwyd y siwrne a archebwyd i'r gyrrwr.
(i) manylion unrhyw ffi a gytunwyd arni neu is-gontract ac (ar ddisgresiwn y gweithredwr) unrhyw sylw arall.
NODER - RHAID I BOB ARCHEB GAEL EI CHYFEIRIO TRWY'R GWEITHREDWR AC NID Y GYRRWR / GYRWYR, CYN Y GELLIR CYFLAWNI'R GWAITH YN GYFREITHLON.

**5.** Bydd y gweithredwr yn cadw cofnod mewn llyfr addas / ar gyfrifiadur o fanylion yr holl gerbydau hurio preifat a weithredir dan y drwydded a bydd yn nodi'r wybodaeth a ganlyn o ran pob cerbyd:-
(a) y gwneuthuriad, model a'r lliw.
(b) rhif cofrestru'r cerbyd.
(c) rhif trwydded y cerbyd.
**Yn ogystal, bydd ganddo yswiriant dilys ar gyfer pob cerbyd/gyrrwr a weithredir ganddo. Rhaid i'r Polisi nodi bod y cerbydau wedi'u hyswirio er dibenion 'Hurio Cyhoeddus', 'Hurio Preifat' neu 'Hurio a Derbyn Tâl'.**

**6**. Ni fydd y gweithredwr yn gwaredu unrhyw gofnodion a wnaed yn unol ag Amod 4 uchod o fewn deuddeg mis o'r gweithgarwch hurio diwethaf a nodwyd ynddynt.

**7.** Bydd y gweithredwr, ar gais, yn cyflwyno ei drwydded a'r cofnodion y cyfeirir atynt yn Amodau 4 a 5 uchod i unrhyw swyddog awdurdodedig y Cyngor neu unrhyw Gwnstabl er mwyn eu harchwilio a rhoi caniatâd i wneud copïau ohonynt.

**8. Bydd y gweithredwr yn hysbysu'r Cyngor yn ysgrifenedig o fewn saith (7) diwrnod ar ôl iddo:-**
**(a) gael ei euogfarnu o unrhyw drosedd dan ddeddfwriaeth traffig y ffordd neu radio - delathrebu, neu unrhyw drosedd o anonestrwydd, anwedduster neu drais.**
**(b) gwneud unrhyw newid yng nghyfeiriad yr eiddo y gweithredir y cerbydau hurio preifat ohono.**
**(c) dechrau gweithredu busnes cerbydau hurio preifat o unrhyw eiddo ychwanegol.**

9. Bydd y gweithredwr yn darparu gwasanaeth prydlon, effeithlon a dibynadwy ac yn benodol, bydd yn sicrhau fod cerbydau yn cyrraedd yn brydlon mewn lleoliadau, ac ar amseroedd, a drefnwyd ymlaen llaw. Bydd y cerbydau mewn cyflwr glân a thaclus bob amser.

**10.** Bydd unrhyw eiddo a ddefnyddir gan y gweithredwr yng nghwrs ei fusnes ble y mae gan y cyhoedd fynediad ato, boed hynny er dibenion archebu cerbyd neu aros am gerbyd, yn cael ei gadw'n lân a bydd yno ddigon o seddi, gwres, golau ac awyriad. Yn ogystal, ni fydd yn caniatáu i

unrhyw berson meddw neu sy'n ymddwyn mewn modd anhrefnus, aros yn yr eiddo y mae'r drwydded yn weithredol arno. Atgoffir y gweithredwr hefyd o "Reoliadau Mangreoedd Di-fwg etc. (Cymru) 2007". Mae'n anghyfreithlon i Weithredwyr, Staff, Cwsmeriaid ac ymwelwyr ysmygu mewn ardal gyhoeddus gaeedig. Am ragor o wybodaeth ynghylch y gwaharddiad ysmygu a'r rheoliadau, ewch draw i **www.smokingbanwales.co.uk** neu cysylltwch ag Adran Amgylcheddol y Cyngor.

**11.** Ni fydd y gweithredwr yn cynnal ei fusnes yn y fath fodd fel ei fod yn achosi niwsans i unrhyw ddeiliaid preswyl neu unrhyw ddeiliaid tir eraill.

**12.** Bydd y gweithredwr yn sicrhau fod yr holl offer radio y defnyddia yng nghwrs ei fusnes:
(a) yn cael ei gynnal a'i gadw mewn cyflwr gweithio da bob amser.
(b) yn cael ei archwilio yn flynyddol ar gost y gweithredwr ac yn cael ei ardystio ei fod mewn cyflwr da gan gwmni uchel ei barch - unrhyw dystysgrif o'r fath i fod ar gael i'w harchwilio gan swyddog awdurdodedig y Cyngor neu unrhyw Gwnstabl, ar gais.
(c) yn cydymffurfio â deddfwriaeth gyfredol ac yn cael ei weithredu yn unol â hynny.

**13.** Ni fydd y gweithredwr yn defnyddio unrhyw offer radio sy'n medru sganio mwy nag un amledd yn gysylltiedig â'i fusnes ac ni fydd unrhyw offer o'r fath yn cael ei gario mewn unrhyw gerbyd a weithredir ganddo nac yn cael ei leoli mewn unrhyw eiddo a ddefnyddir ganddo yn gysylltiedig â'i fusnes.

**14.** Pan fo gweithredwr trwyddedig yn marw neu'n rhoi'r gorau i weithredu, neu os na fydd y Cyngor yn adnewyddu'r drwydded neu'n ei gwahardd neu'n ei diddymu, bydd y drwydded yn cael ei dychwelyd i'r Cyngor ar unwaith.

**15.** Bydd y gweithredwr yn sicrhau nad ydyw'r geiriau "tacsi" ("taxi"), "tacsis" ("taxis") a "cab" yn cael eu harddangos ar unrhyw gerbyd hurio preifat a weithredir ganddo.

**16.** Ni fydd y gweithredwr yn achosi neu'n caniatáu i unrhyw gerbyd a weithredir ganddo geisio cael ei hurio mewn unrhyw fan cyhoeddus oni bai ei fod yn gerbyd hacni trwyddedig. Ni fydd yn ceisio denu na chymell cwsmeriaid ar y ffordd neu mewn unrhyw fan cyhoeddus arall, fel bod unrhyw berson yn hurio'r cerbyd neu'n cael eu cludo mewn unrhyw Gerbyd Hurio Preifat, NEU, yn achosi neu'n caffael unrhyw berson arall i geisio denu a chymell cwsmeriaid, ar y ffordd neu mewn unrhyw fan cyhoeddus arall, fel bod unrhyw berson yn hurio'r cerbyd neu'n cael eu cludo mewn Cerbyd Hurio Preifat.

**17.** Ni fydd y gweithredwr yn achosi neu ganiatáu i unrhyw gerbyd a weithredir ganddo gael ei ddefnyddio yn groes i unrhyw ofyn neu ddarpariaeth gyfreithiol.

**18.** Bydd y gweithredwr yn sicrhau na fydd unrhyw hysbyseb yn ymwneud â'i fusnes yn cael ei dangos ar unrhyw gerbyd hurio preifat a weithredir ganddo ar uchder sy'n uwch na lefel isaf y ffenestr.

**19. Bydd y gweithredwr yn derbyn a chadw copïau o Drwydded Yrru Cerbyd Hacni/Hurio Preifat Gyfunol ar gyfer yr holl yrwyr sy'n gyflogedig ganddo a bydd yn hysbysu'r Cyngor ar unwaith os bydd unrhyw yrrwr yn gadael ei gyflogaeth, ynghyd â'r rheswm pam fod y gweithiwr wedi gadael. Yn ogystal, bydd yn rhoi'r Drwydded yn ôl i'r gyrrwr pan fydd yn gadael ei gyflogaeth.**

**20.** Bydd y gweithredwr yn gyfrifol am **gyflwyno Llyfr Cynnal a Chadw i bob un o'i Gerbydau Hurio Preifat** ac yn rhoi cyfarwyddyd fod pob gyrrwr yn cynnal gwiriad ffisegol o'r injan, gwresogydd, olew, corff y cerbyd, teiars, cyfarpar cymorth cyntaf, a'r diffoddydd tân pan fo'n dechrau ar ei sifft ac yn cadarnhau canlyniad y gwiriad yn y llyfr cynnal a chadw. Bydd hefyd yn nodi'r milltiroedd sydd ar gloc y cerbyd ar ddechrau ei sifft ac ar ddiwedd ei sifft. Bydd y llyfr hwn yn aros gyda'r cerbyd ac fe'i cyflwynir am archwiliad, gan swyddog awdurdodedig y Cyngor neu

unrhyw Gwnstabl, ar gais.

**21.** Bydd y gweithredwr, pan fo'n derbyn unrhyw gŵyn ynghylch gyrrwr, cerbyd neu unrhyw gytundeb hurio honedig sy'n gysylltiedig â'i gytundeb neu sy'n codi o'i weithrediad, yn hysbysu'r Cyngor yn ysgrifenedig ar unwaith. Rhaid i'r gweithredwr nodi'r camau gweithredu (os o gwbl) a gymerwyd neu a fwriedir eu cymryd o ran y gŵyn.
NEU
Yn achos cwynion a wnaed i'r Cyngor yn uniongyrchol, bydd y gweithredwr yn ymateb gyda hysbysiad tebyg o fewn saith diwrnod o dderbyn y gŵyn.

**22.** Dim ond i'r Eiddo a nodir y bydd y drwydded yn berthnasol ac ni fydd y gweithredwr yn gweithredu Cerbydau Hurio Preifat o unrhyw eiddo arall heb dderbyn caniatâd ysgrifenedig gan y Cyngor yn gyntaf.
Bydd y gweithredwr yn rhoi gwybod i'r Cyngor yn ysgrifenedig o unrhyw newid yn y cyfeiriad mae'n gweithredu ohono neu'n cynnal busnes ohono fel gweithredwr fel arall o fewn saith diwrnod o'r adeg pan fo unrhyw newid yn digwydd.

**23.** Bydd y gweithredwr, o fewn saith diwrnod, yn hysbysu'r Cyngor yn ysgrifenedig o unrhyw euogfarn, rhybudd, cosb benodol neu gerydd yn ei erbyn (neu os yw'r gweithredwr yn gwmni neu'n bartneriaeth, yn erbyn unrhyw un o'r cyfarwyddwyr neu'r partneriaid) yn ystod cyfnod y drwydded.

**24.**
**(a)** Bydd y gweithredwr yn sicrhau na fydd ei yrrwr yn mynnu ffi sy'n fwy nag unrhyw swm a gytunwyd arno yn flaenorol rhwng yr huriwr a'r Gweithredwr, gan unrhyw berson sy'n hurio Cerbyd Hurio Preifat, ac eithrio pan fo'r huriwr yn gofyn am wneud unrhyw newid(iadau) i'r siwrne y derbyniwyd pris amdani.
**(b)** Os oes Mesurydd Tacsi wedi'i osod yn y Cerbyd Hurio Preifat ac nad yw'r ffi wedi cael ei chytuno ymlaen llaw, bydd y mesurydd yn cyfrifo'r ffi o'r lleoliad mae'r huriwr yn dechrau ar ei daith, a bydd gofyn iddo dalu'r swm a ddangosir ar y mesurydd ar ben y daith.
**(c)** Os oes Mesurydd Tacsi wedi'i osod yn y Cerbyd Hurio Preifat er mwyn cofnodi'r ffioedd, bydd y gweithredwr yn rhoi cyfarwyddyd i'w yrrwr / gyrwyr i beidio â pheri i'r ffi a gofnodir arno gael ei chanslo na'i chuddio, hyd nes fod yr huriwr wedi cael digon o gyfle i archwilio'r ffi a'i thalu.
**(d)** Bydd yr huriwr yn derbyn derbynneb am y ffi a dalwyd, ar gais.
**(e)** Bydd y gweithredwr yn sicrhau fod y Mesuryddion Tacsi yn ei gerbydau yn cael ei calibradu a'u selio'n flynyddol ac y bydd copi o'r dystysgrif yn cael ei rhoi i'r Swyddog Trwyddedu.

**25.** Bydd y gweithredwr yn gyfrifol am farcio'r Blwch Cymorth Cyntaf a'r Diffoddwr Tân gyda rhif trwydded cerbyd Cyngor Gwynedd y cerbyd y cedwir yr offer ynddo.

**26.** Rhoddir platiau (mewnol ac allanol), i bob Cerbyd Hurio Preifat, ynghyd â bracedi a sticeri drws, a'r gweithredwr fydd yn gyfrifol am sicrhau fod yr eitemau hyn yn cael eu gosod ar y cerbyd(au) dan sylw. **( Ni fydd y Cyngor yn awdurdodi Sticeri Drws Magnetig.)**

**27.** Bydd y gweithredwr yn sicrhau fod ei Gerbydau Hurio Preifat yn derbyn archwiliad mecanyddol ddwywaith y flwyddyn (bob chwe mis) - (a) MOT, (b) Gwiriad Mecanyddol Cyngor Gwynedd.
Bydd Gwiriad Mecanyddol Cyngor Gwynedd yn cael ei drefnu drwy system apwyntiad a gyflwynir gan Swyddog Trwyddedu Cyngor Gwynedd.
Bydd pob cerbyd / trosglwyddiad newydd yn destun Gwiriad Mecanyddol Cyngor Gwynedd cyn iddo dderbyn Trwydded Cerbyd Cyngor Gwynedd.

**28.** Bydd y gweithredwr yn gyfrifol am goladu pob eiddo coll y deuir o hyd iddo yn ei gerbydau a , bydd yr eiddo'n cael ei gludo i Swyddfa'r Heddlu.

**29.** mae Cynllun Pwyntiau Cosb yn awr yn bodoli fydd yn cosbi unrhyw droseddu o reol; amod; deddfiad, yn ymwneud a Gweithredwr (Copi ynghlwm).

**ATODIAD " B "**

**CYNGOR GWYNEDD COUNCIL**

***Cynllun Pwyntiau Cosb Trwyddedau Cerbyd Hani a Cherbyd Hurio Preifat***
**Hackney Carriage and Private Hire Vehicle Licences - Penalty Points Scheme**

*Tynnir eich sylw at y Cynllun Pwyntiau Cosb a fabwysiadwyd gan y Cyngor yn ddiweddar a rhoddir manylion amdano isod. Er nad yw cydymffurfio ag ef yn un o amodau eich trwydded, y mae'r Cyngor yn bwriadu gweithredu'r cynllun mewn perthynas â chwi yn yr amgylchiadau priodol, a disgwylir i chwi lynu wrtho.*

Your attention is drawn to the Penalty Point Scheme, details of which are given below, which the Council has recently introduced. Whilst compliance with it is not a condition of your licence the Council intends to apply the scheme to you in the appropriate circumstances and you are expected to adhere to it.

***Y Cynllun Pwyntiau Cosb* / Penalty Points Scheme**

*Heb niweidio unrhyw gamau neu ddatrysiad arall sydd ar gael i'r Cyngor os torrir unrhyw statud, is-ddeddf neu reoliadau, bydd pwynt(iau) cosb sydd yn berthnasol ar y pryd i'r toriad hwnnw fel a nodir yn **Atodiad A** , yn cael eu rhoi i ddeiliad trwydded . Ar yr amod na roddir mwy nag unarddeg o bwyntiau cosb i ddeiliad y drwydded o fewn unrhyw gyfnod o ddeuddeg mis, yna bydd pob pwynt cosb yn cael eu dileu ar ddiwedd y cyfnod hwnnw, ond pan gesglir deuddeg pwynt neu fwy o fewn unrhyw gyfnod o ddeuddeg mis, bydd deiliad y drwydded yn agored i unrhyw gamau priodol a gymrir gan y Cyngor, gan gynnwys (heb gyfyngiad), gwaharddiad neu ddirymu trwydded.*

Without prejudice to any other course of action or remedy available to the Council in the event of any contravention of any relevant statute, by-laws, or regulations the penalty point(s) then applicable to that particular breach or contravention as set out in **Appendix A** will be issued to the licence holder. Provided no more than eleven penalty points have been issued to the licence holder within any twelve month period all penalty points will cease to apply at the end of that period , but upon the accumulation of twelve or more points within any twelve month period the licence holder will be rendered liable to any appropriate action being taken by the Council, including (without limitation) suspension or revocation of licence.

***ATODIAD A/* APPENDIX A**

| ***Archwiliad* / Inspection** | | ***Pwyntiau Cosb* / Penalty Points** |
|---|---|---|
| 1. *Dim pris na thariff i'w arddangos ar the mesurydd, ar wahân i'r rhai a gymeradwywyd gan y Cyngor.* No charge or tariff to be displayed on meter other than those approved by the Council . | …………….. | **4** |
| 2. *Y Gyrrwr ddim yn gwisgo bathodyn.* Driver failing to wear badge . | …………….. | **3** |
| 3. *Methiant i arddangos platiau trwydded yn unol a gofynion y Cyngor.* Failure to display licence plates as prescribed by the Council. | ……………. | **6** |
| 4. *Ymddangosiad a/neu ymddygiad y Gyrrwr.* Appearance and/or conduct of Driver. | …………….. | **1 - 3** |

5. *Cyflwr cyffredinol y cerbyd* ) *Tu mewn /* Interior …. **1 - 4**
General condition of car ) *Tu allan /* Exterior …. **1 4**

6. *Swn gormodol o offer ( Stereos a.y.b.)*
Excessive noise from equipment (Stereos etc.) ……….. …. **1 - 2**

7. *Methiant a chario pecyn Cymorth Cyntaf yn y Cerbyd*
Failure to have a Fist Aid Kit Carried in the vehicle …………. **2**

8. *Methiant i osod offer diffodd tân yn y cerbyd*
Failure to have a Fire Extinguisher fitted in vehicle ……… …. **2**

9. *Arddangos arwyddion neu hysbysebion diawdurdod ar neu o fewn y cerbyd*
Displaying unauthorised signs or advertisements in or on the vehicle ………….. **4**

10. *Methiant i gario copi o Dystysgrif Yswiriant yn y cerbyd*
Failure to carry a copy of Certificate of Insurance in the vehicle ……………. **2**

11. *Methiant i arddangos Trwydded Treth cyfredol*
Failure to display a current vehicle Excise Licence ………. …. **3**

12. *Methiant i arddangos ar ddrysau Cerbyd Hurio Preifat yr arwydd a awdurdodwyd gan y Cyngor*
Failure to display on the doors of a Private Hire Vehicle the sign approved by the Council …………… **3**

13. *Methiant i gynnal a chadw goleuadau gorfodol, goleuadau brecio, cyfeiryddion, teiars, corn, system ecsôst, neu unrhyw droseddau eraill yn ymwneud ag Adeiladwaith a Defnydd.*
Failure to maintain obligatory lights, brake lights, indicators, tyres, horn, exhaust system or any other Construction and Use offence …….. **1 - 4**

14. *Methiant perchennog i hysbysu 'r Cyngor am unrhyw ddamwain ffordd neu ddifrod i Gerbyd Hacni neu Gerbyd Hurio Preifat*
Failure of proprietor to inform the Council of a Road Traffic Accident or damage to any Hackney Carriage or Private Hire Vehicle …… **4**

15. *Methiant Gyrrwr neu Weithredwr i hysbysu'r Cyngor am newid cyfeiriad*
Failure of a Driver or Operator to notify the Council of change of address ………….. **2**

16. Methiant i ddatgelu collfarnau ( a roddwyd gan Lys yn y 12 mis blaenorol)
Failure to disclose convictions ( given by Court in previous 12 months) ……. **12**

17. *Methiant Gweithredwr Hurio Preifat i gadw cofnodion cywir o archebion a.y.b.*
Failure by Private Hire Operator to keep accurate records of bookings etc. …………. **6**

18. *Unrhyw dor-amod arall neu ymddygiad anfoddhaol ( yn ôl doethineb y Swyddog Gorfodaeth)*
Any other breach of conditions or unsatisfactory behaviour ( at discretion of Enforcement Officer) …………. **1 - 6**